Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales

16 Hydref 2023

YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD AROLYGU AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI FAWRHYDI: 'AROLYGIAD O WAHANIAETHAU HILIOL YM MHENDERFYNIADAU CYFIAWNDER TROSEDDOL YR HEDDLU.'

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o arolygiadau thematig o heddluoedd. Edrychodd yr arolygiad hwn gan yr Arolygiaeth ar wahaniaethau hiliol wrth wneud penderfyniadau. Canfu'r arolygiad fethiannau i gasglu data priodol ar hil a mesur gwahaniaethau hiliol yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi bod meysydd calonogol, yn benodol yng Nghymru ac o ran y Cynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru.

Fel y cydnabuwyd yn ymchwiliad MacPherson ac unwaith eto yn fwy diweddar yn adolygiad Casey, mae problem systematig mewn perthynas â gwahaniaethau hiliol ym maes plismona. Mae fy swyddfa, ar y cyd â phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill yng Nghymru, wedi ymrwymo i gyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru er mwyn llywio newid a lleihau niwed. Fel y cyfryw, nodaf yr argymhellion hyn a byddaf yn cysylltu'r meysydd hyn o bryder sylweddol â'n gwaith craffu a goruchwylio yn Heddlu De Cymru.

Mae'r Prif Gwnstabl a minnau yn awyddus i sicrhau y caiff gwersi eu dysgu a phontydd eu hadeiladu â grwpiau hil ar yr ymylon, sydd wedi cael eu siomi gan y maes plismona yn rhy hir. Mae'r Dirprwy Brif Gwnstabl Bacon yn crynhoi ei barn am yr adroddiad fel a ganlyn:

'Nid oedd Heddlu De Cymru yn un o'r heddluoedd dan sylw ar gyfer yr adolygiad thematig hwn. Fodd bynnag, mae Heddlu De Cymru yn cydnabod bod y canfyddiadau hyn yn systematig o'r heddlu yn ei gyfanrwydd a byddwn yn gweithio tuag at roi'r argymhellion yn yr adroddiad ar waith. Mae Heddlu De Cymru wedi gwneud llawer o waith i nodi gwahaniaethau hiliol mewn prosesau stopio a chwilio, a byddwn yn defnyddio'r fformat hwn i'n galluogi i roi'r pedwar argymhelliad yn yr adroddiad hwn a oedd yn berthnasol i'r heddlu ar waith yn llawn. Byddwn yn cynnal adolygiad llawn o'n prosesau gwneud penderfyniadau cyfiawnder troseddol ac yn sicrhau ein bod yn datblygu gwaith craffu mewn perthynas â'r canlyniadau hyn a bod y gwaith hwn yn dod yn rhan o fusnes fel arfer. Bydd Heddlu De Cymru yn parhau i

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales

weithio gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r gymuned yn ogystal â phartneriaid eraill yn y maes hwn i sicrhau y caiff y 13 argymhelliad yn yr adroddiad eu rhoi ar waith. Mae Heddlu De Cymru yn ymwybodol iawn bod gwneud penderfyniadau teg yn allweddol ar gyfer ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn yr heddlu, a bod cynyddu hyder y cyhoedd yn allweddol er mwyn lleihau troseddau'n gyffredinol.'

Rwy'n ddiolchgar am sylwadau'r Dirprwy Brif Gwnstabl a'r ymrwymiad i herio hiliaeth a gwahaniaethau hiliol yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Byddaf yn sicrhau bod fy Mwrdd Craffu ac Atebolrwydd yn gweithio'n agos gyda Heddlu De Cymru i ystyried goruchwyliaeth bellach yn y maes hwn.

Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English